## Hyfforddiant Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol i Rieni a Gofalwyr

Hoffai STAND North Wales CBC, mewn partneriaeth hefo Bild - Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain - gynnig y cyfle i rieni a gofalwyr plant ac oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau i gael hyfforddiant ar Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol.

- **Dyddiadau**: Gweler isod
- **Amser**: 9:00 y bore hyd 4:30 y prynhawn
- **Lleoliad**: North Wales Bowls Centre, Ferguson Avenue, Prestatyn, Denbighshire, LL19 7YA

Bydd y rhaglen ddeuddydd hon yn cyflwyno elfennau allweddol Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS) a'r gwerthoedd a'r wyddoniaeth sy'n sail iddo. Ymdrinnir ag achosion posibl a swyddogaeth ymddygiadau sy'n peri pryder yn ogystal ag effaith agweddau, gwerthoedd a chredoau personol ar ansawdd y cymorth a gynigir.

| | Dyddiadau cwrs |
|---|---|
| **Cwrs 1** | Dydd Llun 27$^{ain}$ Chwefror<br>Dydd Mawrth 28$^{ain}$ Chwefror |
| **Cwrs 2** | Dydd Llun 13$^{eg}$ Mawrth<br>Dydd Mawrth 14$^{eg}$ Mawrth |

**Amcan y cwrs**

Mae'r rhaglen hon yn cwmpasu'r wybodaeth hanfodol sydd ei hangen ar unrhyw un sy'n darparu cymorth uniongyrchol ac sy'n gweithredu strategaethau cymorth ymddygiad neu gynllun cymorth ymddygiad. Bydd cyfranogwyr yn archwilio pwrpas ac elfennau hanfodol cynllun cymorth ymddygiad, gan gynnwys strategaethau rhagweithiol fel dysgu sgiliau newydd yn ogystal â strategaethau adweithiol a dysgu beth sydd angen iddynt ei wneud i gefnogi asesiadau swyddogaethol.

**Rhaglen y Cwrs**

**Diwrnod cyntaf:**
- Sylfaen gwerthoedd Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a gwerthoedd personol
- Gweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn - cynllunio a gweithredu
- Darparu amgylcheddau cefnogol, galluog
- Cefnogi asesiad swyddogaethol

**Ail ddiwrnod:**
- Rhoi cynlluniau cymorth ymddygiad ar waith
- Dysgu sgiliau newydd
- Defnyddio strategaethau adweithiol
- Ei roi ar waith

Rhif Cwmni: 11333532
Gwefan: www.standnw.org
E-bost Gweinyddol: Samantha@standnw.org
Gweplyfr / Facebook: www.facebook.com/standnwcic
Instagram: www.instagram.com/stand_nw_cic
Trydar /Twitter: www.twitter.com/STAND_NW

**Deilliannau Dysgu**
Ar ôl cwblhau’r rhaglen hon dylai fod gan gyfranogwyr ddealltwriaeth o’r canlynol:

- Gallu disgrifio'r sylfaen gwerthoedd sy'n sail i wasanaethau o ansawdd da a sut y cânt eu hadlewyrchu yn y fframwaith Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol
- Bod wedi datblygu dealltwriaeth sylfaenol o hanes pobl ag anableddau dysgu ac egwyddorion prisio rôl gymdeithasol, normaleiddio, cynhwysiant, cynllunio a gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a'r berthynas rhwng Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol
- Adnabod y gall gwerthoedd a phriodoleddau personol ddylanwadu ar y math o gymorth a roddir
- Disgrifio yr ystod o anghenion a all fod gan berson. Gallu egluro pam ei bod yn bwysig adnabod y person unigol a gallu disgrifio sut i droi'r wybodaeth hon yn gamau gweithredu sy'n gwella ansawdd bywyd y person
- Disgrifio’r ffactorau sy'n dylanwadu ar amgylchedd galluog a chefnogol
- Egluro’r gwahaniaeth rhwng model cymorth galluogi a model gofal gwesty
- Deall eu rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chefnogi asesu swyddogaethol
- Deall pwrpas casglu data a pham ei bod yn bwysig disgrifio a chofnodi ymddygiad yn gywir
- Gallu esbonio rôl a phwrpas Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad a disgrifio pob elfen hanfodol o Gynllun Cefnogi Ymddygiad
- Bod yn gyfarwydd â chamau'r cylch cyffroi
- Deall pwysigrwydd cefnogi cyfathrebu unigol a dysgu sgiliau newydd i bobl a gallu disgrifio ystod o dechnegau i wneud hyn
- Bod wedi datblygu dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng strategaethau cyfyngol ac anghyfyngol, pryd i'w defnyddio a bod yn glir ynghylch pryd mae ymateb yn wrthwynebus

**Am eich ffurflen archebu, cysylltwch hefo Sam:**

- **E-bost: [Samantha@standnw.org](mailto:Samantha@standnw.org)**
- **Ffôn: 07570 583 842**

Mae archebu lle yn hanfodol, mae llefydd yn gyfyngedig ac mae galw mawr amdanynt – Archebwch yn gynnar i osgoi cael eich siomi!

Rhif Cwmni: 11333532
Gweplyfr / Facebook: www.facebook.com/standnwcic
Gwefan: www.standnw.org
Instagram: www.instagram.com/stand_nw_cic
E-bost Gweinyddol: Samantha@standnw.org
Trydar /Twitter: www.twitter.com/STAND_NW